**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser - Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru**
**Dydd Mercher 14 Mehefin**
**12:00 – 14:00**
**Ystafell Fideogynadledda, llawr 1af Tŷ Hywel.**

**Agenda**

- Canol dydd - cinio
- 12:30 - Cyflwyniad i'r cyfarfod ac ethol deiliaid swyddi. Julie Morgan AC
- 12:40 - Gwasanaethau canser yng Nghymru. Sara Bainbridge, Rheolwr Polisi, Cancer Research UK
- 12:50 - Trosolwg a diweddariad o'r Adolygiad a sut yr ymdrinnir â chanser. Dr Ruth Hussey
- 13:00 - Trafodaeth ar sut y gellid mynd i'r afael â chanser yn yr Adolygiad Seneddol. Pawb.
- 13:20 - Camau nesaf a chamau gweithredu. Julie Morgan AC
- 13:30 - Cyfle i'r Aelodau sy'n gallu aros i barhau â'r drafodaeth

**Yn bresennol**

- Julie Morgan AC, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser
- David Rees AC
- Dr Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
- Mike Hedges AC
- Bethan Jenkins AC
- Dr Ruth Hussey, Arweinydd yr Adolygiad Seneddol
- Clare Bath, Swyddog Materion Cyhoeddus Cymru, CR-UK
- Andy Glyde, Rheolwr Materion Cyhoeddus Cymru, CR-UK
- Sara Bainbridge, Rheolwr Polisi Diagnosis Cynnar, CR-UK
- Nesta Lloyd Jones, Cydffederasiwn GIG Cymru

**Ethol swyddogion**

Cytunwyd yn unfrydol y byddai Julie Morgan AC yn parhau fel Cadeirydd, a Clare Bath, Swyddog Materion Cyhoeddus yng Nghymru, Cancer Research UK, yn parhau fel Ysgrifennydd y Grŵp.

**Adolygiad Seneddol**

Cafwyd trafodaeth ar sut y gellir mynd i'r afael â chanser yn yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Roedd y prif bwyntiau a godwyd yn ymwneud â gwella mynediad meddygon teulu at brofion diagnostig, datrys problemau yn y gweithlu diagnostig, a gwella'r integreiddio rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

Mae'r pwyntiau trafod wedi cael eu cynnwys mewn llythyr i'w anfon at yr Adolygiad Seneddol fel rhan o'r gwaith casglu tystiolaeth. Mae'r llythyr wedi'i gynnwys gyda'r cofnodion hyn.

Dywedodd Dr Ruth Hussey y bydd Adroddiad interim yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf a fydd, yn y lle cyntaf, yn amlinellu'r heriau y bydd y GIG yn eu hwynebu yn ystod y pum mlynedd nesaf. Bydd yn defnyddio'r heriau hyn i amlinellu'r achos dros newid.

Dywedodd Dr Hussey fod systemau gofal iechyd ar draws y byd yn wynebu newid demograffig sylweddol a fydd yn achosi cynnydd o ran cyflyrau cronig.

Mae'r themâu sydd wedi codi hyd yn hyn yn cynnwys:

- Datblygu systemau gofal y tu allan i'r ysbyty
- Bwlch o ran capasiti
- Yr angen am fwy o integreiddio ac effeithlonrwydd
- Gwerthfawrogi'r gweithlu
- Gweithredu prosiectau arloesi ar draws Cymru
- Llywodraethu, atebolrwydd a materion trawsffiniol

Byddai Dr Hussey yn hoffi sicrhau y bydd yr Adolygiad yn helpu gyda'r gwaith o weithredu ei argymhellion ac yn nodi pa bethau y gellir eu rhoi ar waith i sicrhau newid.

Bydd Dr Hussey yn parhau i ymgysylltu â rhandeiliaid ar ôl Adroddiad interim mis Gorffennaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:40.